



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Canllaw Ymarfer Da

Dull CNC i Ymdrin ag Ystlumod a Chynllunio

Hydref 2015

CYD 3

Perchennog y Ddogfen: Richard Ninnes

Hanes y Fersiwn:

Fersiwn y Ddogfen	Dyddiad Cyhoeddi	Crynodeb o'r Newidiadau
1.0	Hyd-2015	Creu dogfen

Dyddiad Adolygu: Hydref 2016

Nodyn

Mae hawlfraint yn berthnasol i holl Nodiadau Cyfarwyddyd Cyfoeth Naturiol Cymru. Dylech fod yn ymwybodol fod defnyddio unrhyw ddeunydd o fewn y ddogfen hon yn digwydd yn unol â Datganiad Hawlfraint ac Ymwadiad / Hysbysiad Safonol CNC. Gellir cael copi o hwn gan y Tîm Mynediad at Wybodaeth yn timmynediadatwybodaeth@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk. Bydd aildefnyddio'r wybodaeth hon yn cael ei bennu gan Reoliadau Aildefnyddio Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus 2005 (Re-use of Public Sector Information Regulations 2005), ac unwaith eto gellir cael manylion gan y Tîm Mynediad at Wybodaeth.

Cyhoeddwyd gan:

Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP
0300 065 3000 (Llun-Gwener 8am-6pm)
[ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:yholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni cheir ailgynhyrchu'r ddogfen hon heb ganiatâd ysgrifenedig gan Cyfoeth Naturiol Cymru

Cynnwys

1. Cyflwyniad	4
1.1 Diben	4
1.2 Cefndir	4
2. Dull Gweithredu	5
2.1 Nodi achosion risg is	5
2.2 Cyngor ar gyfer achosion risg is	6
2.3 Cyngor ar gyfer achosion eraill	7
3. Canllawiau	7
3.1 Sgrinio	7
3.2 Sut mae adroddiad ystlumod addas yn edrych?	8
ATODIAD 1: Canllawiau ychwanegol ar gyfer adroddiadau ystlumod	9
ATODIAD 2: Amlinelliad o fodel y broses ystlumod a chynllunio	12

1. Cyflwyniad

1.1 Diben

Mae'r ddogfen hon yn esbonio dull Cyfoeth Naturiol Cymru o ymdrin â datblygiadau a all effeithio ar ystlumod.

Ei phrif ddiben yw cyflwyno dull gweithredu lle rhoddir cyngor safonol ar achosion risg is sy'n annhebygol o effeithio'n andwyol ar statws cadwraeth rhywogaethau o ystlumod. Yn ogystal ag esbonio'r newid hwn, mae'n crynhoi'r cyd-destun, yn amlinellu'r model presennol ac yn cyfeirio at arfer gorau, ac mae'r rhain i gyd yn dal i fod yn berthnasol. Mae'r ddogfen hon yn mynd ochr yn ochr â'r canllawiau presennol ar arolygon ystlumod a sut mae asesu, osgoi a lliniaru'r effeithiau posibl.

Dim ond mewn achosion lle ceir ystlumod nad ydynt yn perthyn i Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) y mae'r dull gweithredu hwn yn berthnasol.

Mae'r ddogfen hon yn gyfarwyddyd i staff Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn arweiniad i awdurdodau cynllunio lleol.

1.2 Cefndir

Caiff ystlumod eu gwarchod gan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd), sy'n gweithredu Cyfarwyddeb 92/43/EEC yr UE ar 'Warchod Cynefinoedd Naturiol a Phlanhigion ac Anifeiliaid' (sef "y Gyfarwyddeb Cynefinoedd" ar ei ffurf gryno) yn y DU. Mae'r warchodaeth hon yn ymestyn i fannau bridio a safleoedd gorffwys ystlumod.

Fel yr esboniwyd yn nogfen Polisi Cynllunio Cymru (*Pennod 5 - Gwarchod a Gwellu'r Dreftadaeth Naturiol a'r Arfordir*), mae presenoldeb rhywogaeth a warchodir gan Ewrop yn ystyriaeth berthnasol ar gyfer cynnig datblygu a fyddai'n debygol o darfu ar y rhywogaeth, ei mannau bridio neu ei safleoedd gorffwys, neu beri niwed iddynt.

Mae'r Rheoliadau'n caniatáu datblygiadau a fyddai'n debygol o darfu ar rywogaeth a warchodir gan Ewrop, ei mannau bridio neu ei safleoedd gorffwys, neu beri niwed iddynt, ond dim ond dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan nad oes dewis arall boddhaol
- os na fydd y cam gweithredu a awdurdodwyd yn amharu ar gynnal y boblogaeth o'r rhywogaeth dan sylw ar statws cadwraeth ffafriol yn ei chynefin naturiol.
- rhaid i'r gwaith datblygu a awdurdodwyd fod yn waith a wneir er mwyn sicrhau iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd, neu am resymau hanfodol eraill sy'n drech na budd y cyhoedd, gan gynnwys rhai sydd o natur gymdeithasol neu economaidd a chanlyniadau buddiol sydd o bwysigrwydd sylfaenol i'r amgylchedd.

Caiff y rhanddirymiaid hyn o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd, i ganiatáu tarfu ar ystlumod a'u safleoedd bridio a gorffwys, a pheri niwed i'r ystlumod a'r safleoedd hynny, eu hawdurdodi drwy drwyddedau a roddir gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn esbonio, er mwyn cydymffurfio â'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd, y dylai awdurdodau cynllunio ystyried y tri gofyniad rhanddirymiad uchod ac osgoi rhoi caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau na fyddent yn cael trwydded gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn esbonio y dylai awdurdodau cynllunio ofyn am gyngor gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynghylch pob cais cynllunio sy'n debygol o darfu ar ystumod neu beri niwed iddynt, ac y dylent ymgynghori â nhw bob tro cyn rhoi caniatâd. Bydd awdurdodau cynllunio lleol yn mynd i'r afael â hyn drwy sgrinio ceisiadau er mwyn nodi'r rhai lle ceir tebygolrwydd rhesymol bod ystumod yn bresennol ac, felly, pryd y dylid ei gwneud yn ofynnol cynnal arolwg ac adroddiad ystumod a fydd yn cadarnhau p'un a oes ystumod yn bresennol ac a yw'n debygol y bydd y cynnig yn tarfu arnynt neu'n peri niwed iddynt.

I grynhoi, yr hyn sy'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru a datblygwyr ei wneud yn gyffredinol yw osgoi tarfu ar ystumod, eu manau bridio a'u safleoedd gorffwys, neu beri niwed iddynt, oni bai fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi trwydded i ganiatáu'r tarfu neu'r niwed. Dim ond os bodlonir y gofynion rhanddirymiad, gan gynnwys y gofyniad na fyddai'r niwed i ystumod unigol neu'r tarfu arnynt (neu eu manau bridio a'u safleoedd gorffwys) yn amharu ar gynnal y boblogaeth o'r rhywogaeth dan sylw ar statws cadwraeth ffafriol yn ei chynefin naturiol, y caiff Cyfoeth Naturiol Cymru roi trwydded.

2. Dull Gweithredu

Rydym wedi nodi amgylchiadau lle ceir risg is y byddai datblygiad yn cael effaith andwyol ar statws cadwraeth poblogaethau o ystumod, hyd yn oed os na all y datblygiad osgoi niweidio ystumod unigol, eu manau bridio a'u safleoedd gorffwys, neu darfu arnynt, ar safle'r datblygiad.

Mae ein dull gweithredu yn dal i ddibynnu ar bu'n a yw'r ymgeiswyr yn cyflwyno adroddiadau ystumod addas ai peidio. Nid yw'n newid y model presennol, ond rydym bellach yn safoni'r cyngor sylfaenol a roddwn mewn achosion risg is ac yn ychwanegu ffordd systematig o nodi achosion risg is.

Mae'r siart lif yn Atodiad 2 yn amlinellu'r model presennol ar gyfer ystyried ystumod a'r ffordd y mae ein dull gweithredu mewn achosion risg is yn cysylltu â'r model hwnnw.

2.1 Nodi achosion risg is

Mae achos risg is yn un lle bydd adroddiad ystumod yn cadarnhau bod ystumod yn bresennol, ond nid oes DIM UN o'r canlynol yn berthnasol:

- Clwydfannau mamolaeth unrhyw rywogaeth o ystum *ni waeth beth yw maint y glwydfan*. Sylwer y bydd rhai rhywogaethau'n ffurfio clwydfannau mamolaeth bach. Felly, mae'n hanfodol nodi digon o gyfiawnhad yn yr adroddiad ystumod i ategu'r asesiad o natur defnydd ystumod o'r glwydfan.
- Clwydfannau gaeafgysgu unrhyw rywogaeth.

- Unrhyw gynnis sy'n ymwneud ag ystum pedol mwyaf, ystum pedol lleiaf, ystum du, ystum Bechstein, ystum hirglust llwyd, ystum Leisler, ystum adain-lydan ac ystum lleiaf Nathusius.
- Unrhyw gynnis sy'n ymwneud â safleoedd clwydo tair neu fwy o wahanol fathau o rywogaethau o ystum.
- Unrhyw safle paru neu heidio yr ystyrir ei fod yn bwysig ar sail yr adroddiad ystumod a gyflwynwyd.

Os bydd un neu fwy o'r meini prawf uchod yn berthnasol, ceir risg uwch y bydd y cynnis yn amharu ar gynnal y boblogaeth o'r rhywogaeth dan sylw ar statws cadwraeth ffafriol yn ei chynffwrdd naturiol.

Argymhellwn fod y rhestr wirio hon yn rhan o grynoded gweithredol adroddiad ystumod, er mwyn ei gwneud yn hawdd gweld p'un a yw'r awdur wedi ei nodi fel achos risg isel.

2.2 Cyngor ar gyfer achosion risg is

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried nad yw datblygiad mewn achosion risg is yn debygol o amharu ar gynnal y boblogaeth o'r rhywogaeth dan sylw ar statws cadwraeth ffafriol yn ei chynffwrdd naturiol, cyhyd â bod argymhellion adroddiad ystumod addas yn cael eu gweithredu. Dylid disgrifio argymhellion o'r fath mewn datganiad dull a sicrhwr drwy amodau cynllunio a/neu gytundeb o dan Adran 106.

Os bydd yr adroddiad ystumod yn dod i'r casgliad bod y datblygiad yn debygol o darfu ar ystumod unigol, eu manau bridio neu eu safleoedd gorffwys, neu beri niwed iddynt, bydd angen trwydded ar y datblygiad. Yn yr achosion hynny, dylai'r caniatâd cynllunio hefyd gynnwys amod sy'n atal y gwaith datblygu rhag dechrau nes i'r awdurdod cynllunio lleol dderbyn trwydded a roddwyd i'r ymgeisydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn unol â Rheoliad 53 y Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau (2010), sy'n awdurdodi'r gweithgaredd/datblygiad dan sylw i fynd rhagddo, neu nes i Gyfoeth Naturiol Cymru roi gwybod i'r ymgeisydd nad yw trwydded o'r fath yn ofynnol.

Os dilyni'r cyngor hwn ar gyfer achosion risg is, mae'n annhebygol y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwrthod trwydded ar gyfer achos risg is, ar yr amod bod y cais am drwydded yn gyson â'r caniatâd cynllunio. Mae'n bosibl yr effeithir ar yr angen am drwydded, neu ar ganlyniad cais am drwydded, os bydd newidiadau yn y cynlluniau a gymeradwywyd neu os na fydd y datblygiad ei hun yn cydymffurfio â'r caniatâd cynllunio. Byddem yn cynghori'r rheini sy'n cael caniatâd cynllunio i gyflwyno cais am drwydded i ni os ydynt yn ansicr p'un a oes angen trwydded ai peidio.

Mae'r cyngor safonol hwn yn rhoi'r cyfle i awdurdodau cynllunio lleol ei ddefnyddio yng nghyswllt achosion risg is heb ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru, ar yr amod bod unrhyw ganiatâd cynllunio yn cynnwys amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd roi copi o drwydded gan Gyfoeth Naturiol Cymru, neu gopi o lythyr gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn cadarnhau nad yw trwydded yn ofynnol, i'r awdurdod cynllunio lleol cyn dechrau'r datblygiad. Os bydd awdurdod cynllunio lleol yn dilyn y dull gweithredu hwn yng nghyswllt achosion risg is, byddai'n bwysig iddynt hwy, ac i Gyfoeth Naturiol Cymru, adolygu'r ffordd y caiff y dull ei weithredu yn rheolaidd, er mwyn rhoi sicrwydd nad oes risg o dorri'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd.

2.3 Cyngor ar gyfer achosion eraill

Os bydd un neu fwy o'r meini prawf uchod yn berthnasol, ceir risg uwch yr effeithir ar statws cadwraeth ac y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gofyn am newidiadau cyn rhoi trwydded. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn asesu adroddiadau ystlumod yr achosion hyn ac yn rhoi cyngor ychwanegol fel y bo angen er mwyn helpu i sicrhau na fyddai'r datblygiad yn amharu ar gynnal y boblogaeth o'r rhywogaeth dan sylw ar statws cadwraeth ffafriol yn ei chynefin naturiol. Yn yr achosion hyn, ein nod fydd rhoi cyngor sy'n helpu'r awdurdod cynllunio lleol i gymeradwyo cynnig y byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn debygol o'i drwyddedu.

3. Canllawiau

Cyhoeddwn ganllawiau a dolenni at ganllawiau ar arolygon ac enghreifftiau o arfer da y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru (Hafan > Cadwraeth, bioamrywiaeth a bywyd gwyllt > Rhywogaethau a warchodir gan Ewrop > Ystlumod), sydd yn cynnwys:

- 'Cwestiynau Cyffredin' ar Arolygon Ystlumod
- Canllawiau ar gynnwys ecolegwyr
- Gwybodaeth y mae angen ei chynnwys mewn cais am drwydded rhywogaeth a warchodir gan Ewrop.
- Dolenni at ganllawiau arfer da ar gyfer arolygon a mesurau lliniaru gan Natural England a'r Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod, wedi'u cymeradwyo gan Gyfoeth Naturiol Cymru.

Fel arfer, dim ond pan fydd adroddiad ystlumod addas a chyflawn ar gael i ategu cais cynllunio y gall Cyfoeth Naturiol Cymru roi cyngor ffurfiol ar ystlumod.

Rydym hefyd yn cydnabod gwerth trafodaethau cynnar lle ymddengys fod gan gynigion risg uwch neu pan nad yw lefel y risg yn glir. Felly, yn yr achosion hynny, gall ein hymgyngorwyr rhywogaethau helpu i roi arweiniad i ymgynghorwyr ecolegol mewnol a gyflogir gan awdurdodau lleol ac i ymgynghorwyr ecolegol sy'n gweithio i ddatblygwyr.

3.1 Sgrinio

Pwrpas sgrinio yw galluogi awdurdodau cynllunio lleol i nodi'r achosion lle ceir tebygolrwydd rhesymol bod ystlumod yn bresennol ac, felly, nodi a oes angen cynnal arolwg i gadarnhau p'un a oes ystlumod yn bresennol, ac os felly, p'un a fyddai'r datblygiad yn effeithio arnynt.

Mae TAN 5 (*Nodyn Cyngor Technegol 5 – Cynllunio a Chadwraeth Natur*) yn esbonio y dylai fod yn ofynnol i ddatblygwyr gynnal arolygon yng nghyswllt rhywogaethau a warchodir os ceir tebygolrwydd rhesymol eu bod yn bresennol. Mae'n ychwanegu y dylai'r lefel o debygolrwydd sy'n peri i arolwg fod yn ofynnol fod yn isel lle ceir posibilrwydd y

gallai rhywogaeth a warchodir gan Ewrop fod yn bresennol ac mai'r hyn sy'n cael ei ystyried yn arfer gorau yw bod ecolegydd cymwys yn cynnal sgrinio o'r fath, ar sail y data a ddarparwyd gan y Ganolfan Gofnodion Leol berthnasol.

Mae arweiniad ar yr angen am adroddiad ystlumod ar gael yn y '*Biodiversity Toolkit Bats Protocol*' yn:

http://www.biodiversityplanningtoolkit.com/stylesheet.asp?file=211_interactive_bat_protocol

Mae'r Safon Brydeinig BS 42020:2013 '*Biodiversity Code of practice for planning and development*' yn rhoi cyngor mwy cyffredinol er mwyn helpu i bennu'r angen am wybodaeth ecolegol i ategu ceisiadau cynllunio.

3.2 Sut mae adroddiad ystlumod addas yn edrych?

Yn fras, dylai adroddiad fod yn addas at y diben o asesu effeithiau'r datblygiad ar ystlumod sy'n defnyddio'r safle ac argymell mesurau effeithiol i osgoi neu liniaru effeithiau negyddol. Mae'n rhoi gwybodaeth am gyd-destun safle'r datblygiad, i ba raddau y mae ystlumod yn ei ddefnyddio a'r tebygolrwydd y bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio arnynt, a manylion cynigion lliniaru ac iawndal yn y byrdymor a'r hirdymor. Bydd faint o wybodaeth sy'n ofynnol i ategu cais yn amrywio, yn dibynnu ar raddfa'r gwaith arfaethedig a'i effaith ar y rhywogaeth a warchodir. Dylai ymgynghorydd ecolegol proffesiynol fod yn ymwybodol o arfer da yn y maes hwn a'r gofynion ar gyfer ceisiadau am drwyddedau.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cymeradwyo'r arfer da a nodir yn '*Bat Surveys: Good Practice Guidelines 2nd Edition*' a gyhoeddwyd gan yr Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod yn 2012. Ceir copi o'r canllawiau ar wefan yr ymddiriedolaeth. Bu CNC yn cynrychioli'r Sefydliadau Cadwraeth Natur Statudol ar Fwrdd Golygyddol argraffiad cyntaf ac ail argraffiad y "Bat Survey Guidelines". Ar dudalen 6 ceir datganiad sy'n nodi bod y Sefydliadau Cadwraeth Natur Statudol yn cefnogi'r canllawiau a'u bod yn cydnabod y dylai ecolegwyr ddefnyddio'u barn broffesiynol.

Er mwyn helpu i sicrhau bod adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth hollbwysig a'u bod yn hawdd eu hasesu, rydym yn argymell dulliau penodol o lenwi'r templed adroddiad yng nghanllawiau 2012 (gweler Atodiad 1). Mae ein hargymhellion yn cynnwys cyflwyno datganiadau dull fel rhan o'r adroddiad ystlumod.

ATODIAD 1: Canllawiau ychwanegol ar gyfer adroddiadau ystlumod

Mae Blwch 5.1 Pennod 5 *Bat Surveys: Good Practice Guidelines* yn cynnig templed cyffredinol da ar gyfer adroddiadau ystlumod a dylid cynnwys y wybodaeth a nodir. Fodd bynnag, isod ceir canllawiau ychwanegol yng nghyswllt rhai o adrannau Blwch 5.1 er mwyn rhoi sylw i'r pynciau hynny yr ydym wedi gweld bod adroddiadau ystlumod yn ddiffygiol ar eu cyfer at ddibenion cynllunio. Rydym yn argymhell y dylid cynnwys y wybodaeth hon hefyd.

Adran 1.2 Gwaith Arfaethedig ac Adran 4.3.2 Clwydfannau

Mae'n bwysig bod yr ymgynghorydd yn deall manylion llawn cynnig. Mae sicrhau bod yr ymgynghorydd yn deall cynnig yn llawn yn hanfodol er mwyn eu helpu i ystyried yr effeithiau a chynllunio mesurau lliniaru priodol.

Adran 2.1 Crynodeb o ddulliau arolygu ac Adran 4.1 Cyfyngiadau ar wybodaeth arolygon

Dylai'r disgrifiad o gyfyngiadau arolwg gynnwys esboniad clir o achosion lle mae'r arolwg wedi cael ei gyfyngu am resymau iechyd a diogelwch neu resymau ymarferol ac oherwydd bod mynediad wedi cael ei wrthod.

Adran 3 ac Atodiad 3

Rydym yn argymhell yn gryf y dylid defnyddio ffotograffau a diagramau sy'n cynnwys lluniau er mwyn hwyluso'r broses o esbonio lleoliad a natur unrhyw dystiolaeth o ystlumod a nodir yn ystod arolygon, a faint o'r dystiolaeth honno sydd, yn ogystal â gweithgarwch hedfan (e.e. o gwmpas y safle ac i unrhyw safleoedd clwydo posibl ac oddi wrthynt). (Sylwer, fodd bynnag, na ddylid bod angen tynnu ffotograffau o ystlumod yn y fan a'r lle i brofi eu bod yn bresennol, oherwydd dylid cyflwyno tystiolaeth arall, e.e. cofnodion canfodydd ystlumod, ffotograffau o faw ystlumod, dadansoddiad DNA o faw, neu ddogfennaeth yn nodi sut y cafodd y rhywogaeth ei nodi gan weithiwr ystlumod trwyddedig cymwys.

Adran 3.1.1 Safleoedd Dynodedig (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA))

Yn hytrach na chynnwys manylion safleoedd sydd wedi'u dynodi oherwydd eu diddordeb yng nghyswllt ystlumod (e.e. map o leoliad y safle a dyfyniad yn nodi'r rhesymau dros ddynodi), dylai adroddiad ystlumod gynnwys manylion unrhyw safleoedd a nodwyd, ac unrhyw weithgarwch hedfan a welwyd rhwng safle'r datblygiad ac unrhyw safleoedd dynodedig a nodwyd.

Bydd y wybodaeth hon yn hollbwysig i lywio unrhyw asesiad effaith, yn enwedig i'r cynigion hynny y bydd angen eu hystyried fel rhan o Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o dan Reoliad 61 Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd).

Dylai cynigion y bydd angen eu hystyried o dan Reoliad 61 Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd) sicrhau y cânt eu cyflwyno ynghyd â'r holl wybodaeth berthnasol y mae angen ei hystyried i lywio Asesiad Rheoliadau

Cynefinoedd. Rydym yn argymhell yn gryf y dylid trafod y gofynion hyn, a chytuno arnynt, gyda'r awdurdod cymwys ymhell cyn eu cyflwyno, yn enwedig os gallant ddylanwadu ar ofynion arolygu. Gall fod angen i wybodaeth o'r fath gynnwys statws cyflwr unrhyw Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) dan sylw.

Adran 3.1.2 Rhywogaethau a Warchodir

Os bydd cofnodion rhywogaethau a warchodir yn cynnwys manylion y math o glwydfan, dylid cynnwys y wybodaeth hon yn yr adroddiad ystlumod.

Adran 4.3.1 Safleoedd Dynodedig

Rhaid i'r gwaith o asesu effeithiau datblygiad sy'n ymwneud â safle dynodedig (e.e. ACA neu SoDdGA) ar ystlumod fod yn ddigonol i alluogi'r awdurdod cynllunio i bennu'r effeithiau ar bob safle yn unol â deddfwriaeth berthnasol a pholisi cynllunio cenedlaethol a lleol.

Yng nghyswllt Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, rhaid i'r wybodaeth a ddarperir fod yn ddigonol i lywio Aseiad Rheoliadau Cynefinoedd o dan Reoliad 61 Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd).

Adran 5.1 Argymhellion: Arolygu Pellach

Os bydd angen i'r adroddiad ystlumod argymhell gwaith arolygu pellach, dylai'r adran hon esbonio pa arolygon pellach sy'n cael eu hystyried yn angenrheidiol a pham (h.y. sut y byddant yn hwyluso'r aseiad o effeithiau a'r gwaith o bennu mesurau lliniaru er mwyn llywio ceisiadau am ganiatâd cynllunio a thrwydded rhywogaeth a warchodir gan Ewrop), ac unrhyw gyfyngiadau amser a fydd efallai'n berthnasol iddynt.

Sylwer bod arolygon gweithgarwch ar gyfer ystlumod wedi'u cyfyngu i adegau penodol o'r flwyddyn. Gall arolygon a gynhelir ar yr adeg anghywir o'r flwyddyn roi canlyniadau amhendiant ac efallai y bydd angen eu hailadrodd ar adeg briodol o'r flwyddyn. Gellir osgoi gwario gormod o arian ar arolygon drwy eu rhaglennu'n briodol.

Adran 5.2 Mesurau Lliniaru

Gan gofio'r aseiad effaith, mae'n hanfodol nad yw'r mesurau lliniaru a gyflwynir yn yr adroddiad ystlumod wedi'u cynllunio i fodloni'r profion cyfreithiol a nodir uchod yn unig, ond hefyd yn ymrwymadau cadarn y bydd y mesurau lliniaru hyn yn cael eu rhoi ar waith fel rhan o'r datblygiad (ac nid dim ond dangos yr hyn y '*gellid*' ei wneud). Gall fod angen i'r rhain gynnwys mesurau byrdymor a hirdymor, yn dibynnu ar natur y rhywogaeth o ystum a'r clwydfannau sy'n bresennol, a'r effeithiau a nodwyd.

Lle bydd mesurau lliniaru yn ffurfio rhan o strwythur hanfodol adeilad newydd neu adeilad sydd wedi cael ei adnewyddu (e.e. llofft ystlumod, mynediad drwy hedfan i mewn), dylid dangos y rhain ar luniadau pensaer sydd ar raddfa ddigonol ac yn ddigon clir i allu dangos y manylion (gan gynnwys dimensiynau). Dylai lluniadau o'r fath hefyd ddangos lleoliadau nodweddiol lliniaru eraill ar gyfer ystlumod, megis nodweddiol mynediad i ystumod, a'r goleuadau arfaethedig.

Dylid darparu cynllun llystyfiant, lle y bo angen, er mwyn cynnal neu ddarparu cysylltedd rhwng ardaloedd hela a safleoedd clwydo newydd, a llwybrau cymudo yn y dirwedd ehangach, ac felly mae hyn yn ffactor hanfodol yn llwyddiant cyffredinol y mesurau lliniaru ar gyfer ystlumod. Dylai gynnwys manylion lleoliad, hyd a lled a rhywogaethau'r llystyfiant i'w defnyddio.

Dylai'r adroddiad ystlumod hefyd gadarnhau'r system a ddefnyddir i weithredu'r mesurau lliniaru ar gyfer ystlumod.

Rydym yn argymhell yn gryf, os yw'n debygol y bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar ystlumod, y dylai'r adroddiad ystlumod gynnwys datganiad dull yng nghyswllt ystlumod sy'n nodi'r holl fesurau lliniaru a roddir ar waith. Bydd datganiad dull o'r fath yn ofynnol i ategu cais am drwydded Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop; felly, ni fydd ei lunio ar y cam cynllunio yn ofyniad ychwanegol ar ymgeisydd.

Atodiadau

Rydym yn annog y rheini sy'n llunio adroddiadau ystlumod i gynnwys atodiadau sy'n dangos y nodweddion lliniaru y bwriedir eu defnyddio (e.e. blychau ystlumod, nodweddion mynediad uchel ar gyfer ystlumod, dyluniadau ar gyfer clwydfannau pwrpasol i ystlumod).

ATODIAD 2: Amlinelliad o fodel y broses ystumod a chynllunio

